

Cyngor Sir Fynwy
Pwyllgor Cynllunio
Remote Meeting
Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

CYNGHORWYR Cynghorydd Sirol R. Edwards (Cadeirydd)
YN
BRESENNOL: Cynghorydd Sirol P. Clarke (Is-Gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: J.Becker, L.Brown, A.Davies, D. Dovey, A. Easson, D. Evans, M.Feakins, R. Harris, J. Higginson, G. Howard, P. Murphy, M. Powell, A. Webb, S. Woodhouse, R.J.W. Greenland and V. Smith

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Craig O'Connor	Head of Planning
Philip Thomas	Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Andrew Jones	Development Management Area Team Manager
Amy Longford	Rheolwr Treftadaeth
Mark Davies	Highway Development Manager
Denzil – John Turbervill	Commercial Solicitor
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

Dim.

1. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cynghorydd Sir A. Easson fuddiant personol heb fod yn rhagfarnol yng nghyswllt y Cod Ymddygiad Aelodau o ran cais DM/2020/01328, gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd yn bersonol.

Datganodd y Cynghorydd Sir R. Greenland fuddiant personol heb fod yn rhagfarnol yng nghyswllt y Cod Ymddygiad Aelodau o ran cais DM/2020/00875, gan y gellir gweld safle'r cais yn y pellter o'i dramwyfa. Mae mor bell i ffwrdd fel nad yw'n effeithio ar ei eiddo. Mae adroddiad y swyddog yn sôn am eglwys gyfagos St Thomas à Becket. Mae wedi addoli yn yr eglwys am flynyddoedd lawer.

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 3 Tachwedd 2020 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

3. Cais DM/2020/00712 – Caniatâd cynllunio ôl-weithredol ar gyfer newid mynediad cerbyd. Cae (2140) Lôn Waelod, Mynyddbach, Cas-gwent, NP16 6BU.

Ystyriwyd adroddiad y cais a'r ohebiaeth hwyr a argymhellwyd ar gyfer ei chymeradwyo gyda'r pump amod a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Roedd y Cynghorydd I. Martin, yn cynrychioli Cyngor Cymuned Drenewydd Gellifarch wedi cyflwyno datganiad ysgrifenedig yn amlinellu gwrthwynebiadau'r cyngor cymuned i'r cais, a gafodd ei ddarllen i'r Pwyllgor Cynllunio gan y Pennaeth Cynllunio, fel sy'n dilyn:

'Yn ein hymateb ar 7 Awst tynnodd Cyngor Cymuned Drenewydd Gellifarch sylw at bedwar mater sydd angen eu diweddarau:

1. Diogelwch priffordd. Rydym yn parhau i fod yn bryderus, ac felly o leiaf 6 cymydog, fod lledaenu'r fynedfa yn golygu y gallai fod mwy o ddefnydd yn cynnwys cerbydau mwy a hirach a/neu beiriannau angen cylch troi llydan a chyflymder araf iawn pan fyddant yn gadael y safle. Mae hyn ar drofa ddall ac ar gyffordd y B4523 gyda Lôn Waelod gan felly greu perygl diogelwch ffordd sylweddol i ddefnyddwyr ffyrdd eraill yn cynnwys y lluo seiclwyr a beiciau modur. Rydym yn cadw ein gwrthwynebiad i'r cais ar sail diogelwch priffyrdd.
2. Llwybr troed 17. Ar ôl cyfeirio at y mapiau yn dangos y llwybr troed a ddiffiniwyd yn gyfreithiol, sylwn fod llwybr troed 17 yn adawedig ("Llwybr Troed Gadawedig") drwy'r safle. Mae'r cyhoedd wedi defnyddio llwybr troed sydd wedi ei sefydlu ond heb ei gofnodi am o leiaf 40 mlynedd ('Llwybr Troed Arall'). Deallwn i Gyngor Sir Fynwy yn y 1980au godi llwybr troed, stepiau ac arwydd ar gyfer y Llwybr Troed Arall.

Cytunwn gyda'r Swyddog Llwybrau Troed yn ei adroddiad ar 30 Hydref na fedrir defnyddio'r Llwybr Troed Gadawedig ar yr aliniad a gofnodwyd yn gyfreithiol ar ei gyfer.

Deallwn fod gan y Swyddog Llwybrau Troed yn awr bryderon am lwybr y llwybr troed ac nad yw adroddiad y Swyddog Cynllunio nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad bellach yn gywir.

Byddai'r gymuned leol yn feirniadol iawn o unrhyw gynnig i ailagor y Llwybr Troed Gadawedig oherwydd ei effaith negyddol ar yr amgylchedd a'i fod yn achosi bygythiad i ddiogelwch gan y byddai'n dod allan ar y B4253 ar y drofa ddall a nodwyd uchod. Mae'r graddiant anffafriol ar waelod Lôn Waelod yn achosi i draffig sy'n teithio yn y ddau gyfeiriad i ddefnyddio'r ochr honno o'r ffordd. Mae preswylwyr wedi sôn am beryglon cerddwyr yn croesi'r rhyngdoriad neilltuol hwn. Mae'r Llwybr Troed Amgen mewn lleoliad mwy diogel.

Mae angen eglurhad ar gynllun diwygiedig yr ymgeisydd gan nad yw'n dangos fod y pyst ffens a osodwyd yn ymestyn tu hwnt i orchudd y goeden dderw ac yn anghywir drwy beidio dilyn y Llwybr Troed Gadawedig.

Mae canllawiau Llwybr Troed a Phrotocolau Cyngor Sir Fynwy yn ei gwneud yn glir y gall yr Awdurdod Cynllunio ystyried bod angen datrys bodolaeth y Llwybr Troed Arall mewn cysylltiad gydag ystyriaeth y cais cynllunio. Ystyriwn y dylai'r cais gael ei wrthod neu ohirio nes caiff llwybr y llwybr troed ei ddatrys.

Gan fod yr ymgeisydd yn bwriadu cadw anifeiliaid ar y safle yna os yw'r Pwyllgor o blaid rhoi caniatâd, byddai angen i ni ofyn am i'r Llwybr Troed Arall gael ei ddiogelu a'i ffensio er diogelwch y cyhoedd.

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

3. Gorchmynion cadwraeth coed. Rydym yn cymeradwyo gofynion safle y Swyddog Cadwraeth Coed.
4. Tynnu gwrychoedd. Os yw'r Pwyllgor o blaid rhoi caniatâd, byddai angen i ni ofyn am i'r gwrychoedd gael eu hailblannu a'i meithrin a chynnwys argymhellion y Swyddog Cadwraeth Coed fel amodau.

Ystyriwn y dylai'r cais gael ei wrthod ar y seiliau uchod neu fan leiaf oll ei ohirio nes caiff llwybr y llwybr troed ei ddatrys.

Amlinellodd yr Aelod lleol dros Drenewydd Gellifarch, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, y pwyntiau dilynol:

- Tan yn ddiweddar roedd clwyd amaethyddol safonol na wnaed fawr o ddefnydd ohoni ar y cae tu allan i ffin y datblygiad ar gyfer Drenewydd Gellifarch ac yn agos at Wayside House ar waelod Lôn Waelod.
- Cafodd y fynedfa ei dyblu o ran maint ar benwythnos gŵyl y banc gyda gwaith tyllu i dynnu gwrychoedd a phentyrru cerrig wrth ymyl coed a warchodir.
- Mae hyn yn gais ôl-weithredol yn dilyn cais i'r fynedfa a gwrychoedd gwreiddiol gael eu hadfer.
- Gobeithiai'r Aelod lleol y byddai gweithredu i sicrhau y byddai'r glwyd a'r gwrychoedd a symudwyd yn cael eu hadfer neu fod y swyddog yn argymhell gwrthod y cais oherwydd ei leoliad peryglus ar y briffordd, fel y mae mewn ceisiadau mynediad eraill yn agos at drofeydd dall ar y B4235.
- Mae'r fynedfa yn agos i allfan a mynedfa Lôn Waelod. Mae gostyngiad cyflym ac mae hyweledd Lôn Waelod yn gyfyngedig ac wedi'i rwystro i'r B4235. Mae uchder a chambr y ffordd yn golygu ei bod yn anodd gadael Lôn Waelod i'r B4235 heb fynd i ochr arall y ffordd. Mae'r symudiad hwn yn anodd ac yn beryglus gyda'r ongl a'r gostyngiad i'r B4235.
- Yn ychwanegol mae'r safle yn agos at drofa ddall sydyn ac mewn ardal a nodir fel bod yn beryglus oherwydd y llinellau perygl dwbl dim pasio.
- Mae hefyd yn ffordd y gwyddys y caiff ei defnyddio gan feiciau modur cyflym.
- Gall un o'r dadleuon priffyrdd fod yn seiliedig ar 'dim mwy o ddefnydd nag ar hyn o bryd'. Fodd bynnag mae'r adroddiad yn cyfeirio at ddefnydd dyddiol disgwyledig y safle, fydd yn cynyddu ei defnydd gan 100% ar fynedfa beryglus iawn. Mae'r Adran Priffyrdd wedi ceisio gwella'r sefyllfa drwy ddweud y dylai'r glwyd gael ei gosod o leiaf 12 metr o'r briffordd. Mae cynllun yr ymgeisydd yn dweud fod hyn 11 metr yn ôl o'r ffordd ond nid oes amod priffordd nad oes clwyd gan 13 metr yn ôl i helpu gyda llyf rhydd traffig. Dylid nodi hyn fel amod clwyd priffordd.

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

- Mae angen amod y dylai clwyd y cae gael ei gosod o leiaf 12 metr yn ôl (13 metr yn y cynlluniau o ymyl y briffordd gyffiniol, ac y caiff ei adeiladu i fod yn amhosibl ei hagor ar i allan tuag at y briffordd). Mae hyn er mwyn sicrhau y gellir symud unrhyw gerbydau sy'n gwasanaethu'r safle o'r briffordd pan gaiff clwyd y cae ei hagor a'i chau er budd diogelwch priffordd a llif rhydd traffig ar hyd y B4235 yn unol â pholisi MV1 y Cynllun Datblygu Lleol.
- Aeth y cynllun gwreiddiol yn ôl i ben draw y cae gan mai dyma lle'r oedd y dramwyfa gerrig rhydd eisoes wedi eu gosod. Mae angen cwtogi ychydig ar hyn i osgoi difrod i goeden dderw. Fodd bynnag, gan y bydd blwch ceffylau 9.2 metr yn mynd i'r cae, yna bydd angen cylch troi, oedd yn y cynllun gwreiddiol ond a gafodd ei dynnu o'r cynllun diwygiedig. Mae angen cylch troi i atal blwch ceffylau hir rhag gorfod bacio i'r ffordd brysur a pheryglus a galluogi'r cerbyd i adael y safle mewn gêr ymlaen fel ag yn y cynllun gwreiddiol ar gyfer y cais.
- Mae'r cynllun yn dangos llwybr troed 17. Fodd bynnag, ni chafodd y llwybr troed gadawedig hwn ei ddefnyddio ers y 1980au. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi codi camfa ac arwydd ar gyfer llwybr diogelach i ganol y cae ac mae pobl leol wedi eu defnyddio ers y 1980au. Mae hwn yn lwybr troed a gaiff ei ddefnyddio'n gyson a byddai'r gymuned yn hoffi parhau ei ddefnyddio fel llwybr mwy diogel. Cafodd y llwybr troed presennol ei wyro o leiaf 35 mlynedd yn ôl.
- Yn ôl gwybodaeth leol, roedd yr ymgeisydd yn berchennog Wayside House a'r cae tua 40 mlynedd yn ôl. Cafodd yr ardd ei hymestyn i'r cau gyda gwrych a ffens o amgylch Wayside House. Sefydlwyd hawl tramwy cyhoeddus arall diogel yng nghanol y cae o leiaf 35 mlynedd yn ôl.
- Gwerthwyd Wayside House i'w berchennog presennol tua 30 mlynedd yn ôl. Mae'r Aelod lleol yn credu, oherwydd gweithredoedd Cyngor Sir Fynwy, fod dyletswydd foesol gref os nad gyfreithiol i hyn gael ei gadarnhau gan orchymyn gwro llwybr troed fel rhan o'r cais.
- Bydd pryderon sylweddol yn y gymuned os na chaiff y llwybr presennol ei gadw ac mae'n ystyried y dylai'r Pwyllgor Cynllunio ystyried hyn.
- Hoffai'r Aelod lleol i'r cais gael ei ohirio ar sail cynllunio gan nad yw i raddfa yn iawn nac yn fanwl gywir. Roedd cylch troi yng nghynllun gwreiddiol yr ymgeisydd nad yw yno mwyach. Mae angen cynnwys hyn ar sail diogelwch priffordd. Ar yr un pryd, dylid cyflwyno gorchymyn llwybr troed i wyro'r llwybr troed yn ei ddefnydd presennol.
- Byddai'n well pe cedwid y cynlluniau gwreiddiol a gytunwyd gan yr ymgeisydd gyda chylch troi, ond ychydig yn fyrrach, os yn bosibl i osgoi'r problemau gyda'r coed gydag amod y dylai gorchymyn y llwybr troed gynnwys y llwybr gwro a'r llwybr a ddefnyddir.

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

- Ni chaiff Llwybr Troed ei ddefnyddio ac mae'n dod i'r cae mewn lleoliad anniogel ar waelod Lôn Waelod. Os na chaiff y cylchoedd troi eu dynodi a'u cynllunio, yna gallai troi effeithio ar y llwybr presennol i gerddwyr.
- Gofynnodd yr Aelod lleol i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried gohirio y cais.
- Mae ystyriaeth llwybrau troed yn ystyriaeth sylweddol mewn materion cynllunio.
- Pe byddai'r Pwyllgor Cynllunio yn tueddu bod o blaid peidio gohirio'r cais, yna gofynnodd yr Aelod lleol i ystyried gwrthod y cais ar sail diogelwch priffordd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad am y cais a'r farn a fynegwyd, nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Credai Aelod fod angen cyfeirio at y Map Diffiniol er mwyn i'r llwybr troed gael ei ystyried yn iawn yn ei gyflwr presennol gyda'r Adran Hawliau Tramwy cyn penderfynu ar y cais cynllunio.
- Ystyrir bod y cais yn welliant ar y safle.
- Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu y Pwyllgor, yn nhermau hawliau tramwy cyhoeddus, ei fod yn ystyriaeth sylweddol i ryw raddau ond bod angen sefydlu os yw'r datblygiad yn effeithio ar hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'r llinell diffiniol yr hawl tramwy yn rhedeg drwy ardd y cymydog ac ar draws y cae ond nid yw'r cynnig hwn yn effeithio arno hyd yn oed pan gafodd ei ymestyn gan 13 metr gyda'r clwydi. Fel y'i cynigir ar hyn o bryd, heb y llwybr mynediad estynedig a'r cylch troi, nid oes unrhyw effaith ar y llwybr diffiniol. Lle mae ganddo gyfeirnodau dros dro, am flynyddoedd lawer, nid yw'r datblygiad hwn wedi effeithio ar hynny ychwaith.
- Dywedodd Rheolwr Datblygu Priffyrdd fod yr ymgeisydd wedi cyflwyno mân newidiadau i wella diogelwch mynd i mewn ac allan o'r cau. Byddi gosod y clwydi 12 metr yn ôl yn galluogi pob cerbyd amaethyddol i agor y clwydi a pheidio aros ar y briffordd gyhoeddus. Mae hyn yn welliant sylweddol o ran diogelwch priffordd. Mae hefyd yn galluogi gadael y safle a chau'r glwyd sy'n welliant diogelwch ar gyfer da byw yn y cae. Bydd darparu barclod gadarn o bum metr yn gostwng yn fawr y tebygrwydd y caiff unrhyw ddeunydd rhydd a llaid o'r cae eu llusgo i'r briffordd gyhoeddus. Nid oes gan yr Adran Priffyrdd unrhyw seiliau dros wrthwynebu'r cais.

Rhoddodd yr Aelod lleol grynodedb fel sy'n dilyn:

- Roedd y syniad cyntaf a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ddatrysiad gwell, h.y. y cynllun gyda'r cylch troi. Mae hyn eisoes yn ei le ond gellid cwtogi rhywfaint arno i osgoi effeithio ar y goeden dderw. Felly, gwnaed cais i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried gohirio'r cais i adolygu'r opsiwn. Ystyriwyd y gellid hefyd ddatrys y broblem gyda'r llwybr tro ar yr un pryd.

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu y Pwyllgor Cynllunio y cafodd y cynllun ei negodi i eithrio'r pen troi. Mae'r Swyddogion Cynllunio yn cymeradwyo'r cynllun i'r Pwyllgor Cynllunio yn unol â hynny. Mae cwmpas i drin a throï cerbydau o amgylch yn y cae a'i adael mewn gêr ymlaen. Caiff y clwydi eu gosod 13 metr yn ôl i'r safle.

Yng nghyswllt hawl tramwy cyhoeddus, byddai'r mater yn gyfrifoldeb y Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn yr Adran Cefn Gwlad. Mae'r Tîm yn gwybod am y broblem. Fodd bynnag, nid yw'r hawl tramwy yn effeithio ar y cais.

Nid oes caniatâd am yr ardal droi bresennol ac nid yw'n rhan o'r cynllun. Felly mae angen i amod 2 yn yr adroddiad i'w adfer gyda glaswellt i fod yn rhan o'r cae.

Roedd yr Aelod lleol wedi cynnig bod y Pwyllgor Cynllunio yn gohirio ystyried y cais ar seiliau cynllunio nad yw i raddfa nac yn fanwl gywir. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei eilio.

Mewn ymateb i amod ychwanegol a godwyd gan Aelod lleol, sef:

"Dylid gosod clwyd y cae yn ôl gan o leiaf 12 metr (13 metr yn y cynlluniau o ymyl y briffordd gyffiniol a chaiff ei adeiladu fel na fedrir ei agor ar i allan tuag at y briffordd). Mae hyn er mwyn sicrhau y caiff unrhyw gerbydau sy'n gwasanaethu'r safle eu symud o'r briffordd wrth agor a chau clwyd y cae er budd diogelwch priffyrdd a llif rhydd traffig ar hyd y B4235 yn unol gyda pholisi MVI y Cynllun Datblygu Lleol."

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu y gellid cynnwys yr amod hon.

Roedd yr Aelod lleol wedi cynnig ein bod yn gwrthod y cais ar sail diogelwch priffordd. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei eilio.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor bleidleisio ar gymeradwyo cais DM/2020/00712 yn destun i'r pum amod a amlinellir yn yr adroddiad a gydag amod ychwanegol, fel sy'n dilyn:

Dylid gosod clwyd y cae yn ôl o leiaf 12 metr (13 metr yn y cynlluniau o ymyl y briffordd gyffiniol a chaiff ei adeiladu fel na fedrir ei agor ar i allan tuag at y briffordd). Mae hyn er mwyn sicrhau y caiff unrhyw gerbydau sy'n gwasanaethu'r safle eu symud o'r briffordd wrth agor a chau clwyd y cae er budd diogelwch priffyrdd a llif rhydd traffig ar hyd y B4235 yn unol gyda pholisi MVI y Cynllun Datblygu Lleol.

Pan roddwyd y cynnig i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

O blaid cymeradwyo	-	10
Yn erbyn cymeradwyo	-	1
Ymatal	-	1

Cariwyd y cynnig..

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2020/00712 gyda'r pum amod a amlinellir yn yr adroddiad a gydag amod ychwanegol fel sy'n dilyn:

Dylid gosod clwyd y cae yn ôl gan o leiaf 12 metr 13 metr yn y cynlluniau o ymyl y briffordd gyffiniol a chaiff ei adeiladu fel na fedrir ei agor ar i allan tuag at y briffyrdd). Mae hyn er mwyn sicrhau y caiff unrhyw gerbydau sy'n gwasanaethu'r safle eu symud o'r briffordd wrth agor a chau clwyd y cae er budd diogelwch priffyrdd a llif rhydd traffig ar hyd y B4235 yn unol â pholisi MVI y Cynllun Datblygu Lleol.

Cyngor Sir Fynwy
Pwyllgor Cynllunio
Remote Meeting
Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

4. Cais DM/2020/00875 – Newid defnydd bloc stabl i lety gwyliau hunangynwysedig. Stablau, Church Farm, Lôn Church Cottage, Llanwynell, Devauden.

Ystyriwyd adroddiad y cais a argymhellwyd ar gyfer ei gymeradwyo yn destun i'r naw amod a amlinellir yn yr adroddiad.

Awgrymodd y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu y dylai'r Pwyllgor ystyried cymeradwyo y cais gyda'r amod bod cytundeb cyfreithiol Adran 106 hefyd yn cael ei sicrhau i ystyried y safleoedd gwyliau a'u clymu gyda'r deiliad fferm yn Church Farm.

Roedd Aelod lleol Devauden yn bresennol yn y cyfarfod ar wahoddiad y Cadeirydd ac amlinellodd y pwyntiau dilynol:

- Mae'r Aelod lleol yn gyffredinol o blaid arallgyfeirio ffermydd a llety twristiaid lle'n briodol. Fodd bynnag, mae'r cais hwn wedi creu llawer o gynnw.
- Cafodd yr adeilad ei godi yn 1988 a chafodd ei ddisgrifio'n wreiddiol fel stabl. Fodd bynnag, dywedodd yr ymgeisydd na chafodd erioed ei ddefnyddio ar gyfer y diben hwnnw ond ar gyfer defaid.
- Mae'r ymgeisydd yn awr yn byw yn Devauden sydd yng nghanol eu menter amaethyddol gyda'r safle hwn yn ddarn o dir ar y cyrion.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn 2008 ar gyfer to goleddf newydd. Roedd waliau croen dwbl newydd gydag agoriadau ffenestri a drysau wedi eu codi cyn 2008 sy'n golygu eu bod yn awr yn gyfreithiol hyd yn oed er na wnaed cais am ganiatâd cynllunio bryd hynny.
- Yn 2018 gyda'r waliau â statws cyfreithiol, cynhaliwyd trafodaeth cyn gwneud cais gyda Swyddogion Cynllunio ond ni chyflwynwyd cais bryd hynny.
- Y llynedd cafodd walei chodi ar gyfer trin gwartheg ond nid yn y safle lle rhoddwyd caniatâd cynllunio. Ni chafodd y wal ei defnyddio ar gyfer y diben hwnnw. Mae'r wal yn ymestyn 1.9 metr, ar un pwynt, i'r tir cyfagos. Mae'r Aelod lleol yn ystyried na fedrai'r adeilad hwn fod wedi ei wneud yn gyfreithiol pe byddai'r wal wedi cael ei chodi yn y safle y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer.
- Cyfeiriodd yr Aelod lleol at Bolisi Cynllunio T2 sy'n cyfeirio at lety ymwelwyr. Wrth edrych ar yr eithriadau i T2, un o'r cwestiynau a ofynnir yw 'a yw hyn yn adeilad fferm presennol sy'n cael ei ddefnyddio?' Nid oes tŷ fferm ar y safle. Mae'n edrych fel adeiladau fferm diffaith. Nid oes adeilad fferm gweithredol ar y safle.
- Darllenodd yr Aelod lleol ran B o Bolisi Cynllunio T2.

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

- Os yw'r waliau dros 10 oed mae ganddynt statws cyfreithiol. Fodd bynnag nid yw T2 yn dweud y dylid rhoi ystyriaeth i unrhyw beth hŷn na 10 mlynedd.
- Gofynnodd yr Aelod lleol am ystyriaeth ofalus i'r cais ac os y gwnaed hyn ar gyfer osgoi'r rheoliad cynllunio.
- Nid oes unrhyw ddyluniad rhesymol yn yr adeilad arfaethedig. Mae'n iwtalitaraidd iawn ac yn anghydnaws mewn termau polisi.
- Cafodd nifer o goed eu cwmpo ar ffin y safle yn ddiweddar gan wneud y safle yn amlwg iawn o'r llwybr troed cyfagos.
- Nid yw'r Aelod lleol yn ystyried fod y datblygiad arfaethedig yn addas ar gyfer ei addasu dan Bolisi Cynllunio T2 a gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried gwrthod y cais ar y sail hwn.
- Mae Swyddogion Priffyrdd wedi ystyried bod y fynedfa yn addas. Fodd bynnag, mae'r fynedfa yn gul iawn a gall fod yn anodd i gerbydau ei defnyddio pan mae'n dywyll. Nid yw'r fynedfa yn addas ar gyfer llety o safon.

Roedd y Cyngorydd A. Williams, yn cynrychioli Cyngor Cymuned Devauden, wedi paratoi recordiad fideo a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio ac amlinellwyd y pwyntiau dilynol:

- Mae Cyngor Cymuned Devauden yn ceisio cydbwysu'r angen i ddod ag amrywiaeth a chyfle i'r gymuned gydag amwynderau i'r gymuned yn gyffredinol. Fodd bynnag, ystyrir fod y cais hwn yn methu cyflawni hynny.
- Mae nifer o wrthwynebiadau cryf gan gymdogion am addasrwydd y datblygiad fel gosodiad gwyliau masnachol ac mae'r Cyngor Cymuned yn cytuno gyda'r gwrthwynebiadau hyn.
- Mae'r Cyngor Cymuned wedi gweld ceisiadau mewn safle gwell ac wedi eu cynllunio'n well na'r cynnig hwn.
- Mynegwyd pryder am y fynedfa newydd i'r datblygiad arfaethedig a'r drwgdeimlad a achosodd.
- Roedd y Cyngor Cymuned a chymdogion wedi ei wrthwynebu o'r cychwyn cyntaf ond cafodd ei gymeradwyo fel datblygiad a ganiateir.
- Mae'n gul iawn ac yn effeithio ar fynediad i adeiladau cyfagos.
- Ni all ddarparu'n ddiogel ar gyfer y cynnydd mewn traffig a fyddai'n ganlyniad y datblygiad a fyddai hefyd o bosibl yn cymysgu peiriannau fferm gyda phobl ar wyliau.

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

- Mae'r ymgeisydd wedi ymestyn y terfyn dwyreiniol i dir cyfagos ac wedi gwyro trac mynediad presennol pwysig o'i amgylch heb ganiatâd y perchennog tir.
- Mae Cyngor Cymuned Devauden yn cefnogi'r gwrthwynebiadau i'r cais ac wedi gofyn i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried gwrthod y cais.

Roedd Mr Marlow, a wrthwynebai'r cais, wedi paratoi recordiad fideo a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio ac amlinellwyd y pwyntiau dilynol:

- Tan yn ddiweddar, roedd y fenter hon yn dyddyn ac dim ond newydd gael ei gysylltu gyda thir ffermio arall yn yr ardal y mae.
- Roedd Church Cottage yn gysylltiedig gyda'r adeiladau a'r caeau hyn ond cafodd ei werthu 20 mlynedd yn ôl, felly nid oes unrhyw berson ar y safle gyda'r adeiladau hyn. Dim ond bob ychydig o ddyddiau mae rhywun yn ymweld â'r safle.
- Mae'r dyluniad a gynigir yn ddolur llygad ac nid yw'n welliant ar yr hyn sydd yno eisoes.
- Dechreuodd yr adeilad bloc, a ddisgrifir fel adeilad amaethyddol, fel sied groes a gafod ei hail-doi 10 mlynedd yn ôl i greu to goleddf. Gwnaed gwaith arall yn cynnwys adeilad croen dwbl gyda waliau bloc mewnol. Mae ciliau ffenestri domestig tu ôl i'r croen sengl gyda drysau domestig wedi eu gosod. Gosodwyd plymio ar gyfer dau doiled, gan wneud yr adeilad hwn yn fwy o un domestig nag un amaethyddol.
- Mae'r adeilad arall yn floc stabl pren gydag ystafell tac yn gysylltiedig sydd o leiaf 30 mlynedd oed ac mewn cyflwr gwael y byddai'n rhaid ei ddymchwel, ei ail-adeiladu mewn gwaith bloc ar yr un olion ac yna gwneud iddo edrych fel pe bai ganddo gladin pren.
- Mae'r fynedfa a gynigir yn drac cul sy'n rhedeg wrth ochr eiddo y gwrthwynebwr ac i gael ei rannu gyda'r fferm a'r bythynnod gwyliau. Mae hwn yn drac cul gyda mynediad anodd. Pe byddai dau gerbyd yn dod i gwrdd ei gilydd, byddai'n rhaid i un facio 200 metr yn ôl at yr eglwys gan nad oes unrhyw leoedd pasio.
- Yn ddiweddar achosodd cerbyd oedd yn ceisio mynediad i'r lôn ddifrod i wal y gwrthwynebydd a'u llinell gyflenwi oel allanol.
- Yr unig draffig sy'n teithio ar hyd y trac hwn ar hyn o bryd yw ymwelwyr i eiddo'r gwrthwynebydd neu eiddo eu cymydog.
- Mae mynedfa bresennol a ddefnyddiwyd am 40 mlynedd gerllaw sydd â chlwyd fawr i fuarth y fferm a phorth mawr i safle'r datblygiad. Byddai hyn yn opsiwn gwell pe byddai'n parhau i gael ei ddefnyddio fel fel y fynedfa yn lle'r trac cul.

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

- Yn ddiweddar, cafodd nifer o goed aeddfed eu cwmpo ar hyd y llinell derfyn sy'n golygu y gall y safle gael ei weld o'r llwybr troed cyhoeddus ac o'r ochr arall gellir gweld y safle o Eglwys Llanwynell a chrib Cobblers Plain.
- Mae Marlow Vets yn cyflogi 26 o bobl yn y filfeddyga ac yn gofalu am anifeiliaid o'u cartref felly maent angen mynediad.
- Byddai creu'r anheddau a'r cynnydd mewn traffig a fyddai ar y lon gul yn effeithio'n ddifrifol ar ansawdd bywyd cartref y gwrthwynebydd.

Roedd Mr S. Leaver, asiant yr ymgeisydd wedi paratoi recordiad sain a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio ac amlinellwyd y pwyntiau dilynol:

- Nid yw hawliau mynediad i'r eiddo a pheidio bod â hawliau cerbyd cyhoeddus yn ystyriaeth sylweddol i'r broses gais, Fodd bynnag, rhoddwyd tystiolaeth yn cadarnhau y caiff y ffordd sy'n arwain at ardal cais terfyn safle llinell goch ei ystyried yn drac gyda hawliau i gerbydau cyhoeddus.
- Mae'r ymgeisydd yn rhedeg busnes ffermio dilys ac wedi gwneud hynny am 40 mlynedd. Caiff y busnes ei redeg dros tua 179 erw o dir amaethyddol a gaiff ei ffermio mewn pedwar bloc. Mae tua 40 erw yn Church Farm ynghyd ag adeilad y cynigir ar gyfer ei addasu ac adeilad mwy ar gyfer da byw a gedwir ar gyfer cadw gwartheg yn y dyfodol.
- Mae'r ymgeisydd hefyd yn gweithredu tenantiaeth busnes fferm dros 75 erw o fferm sy'n eiddo Cyngor Sir Fynwy. Mae'r ymgeisydd hefyd yn ffermio 50 erw arall ar drwyddedau pori.
- Bu Church Farm yn nwylo'r ymgeisydd ers y 1980au a chodwyd yr adeilad y cynigir ei addasu yn 1988.
- Codwyd yr adeilad pren ar gyfer wyna a chafodd ei rannu ar gyfer y defnydd hwnnw gyda wal blociau yn cael ei hychwanegu'n ddiweddarach i roi mwy o le ac i wrthsefyll y tywydd. Defnyddiwyd yr adeilad ar gyfer wyna dros flynyddoedd lawer ond gyda'r busnes ffermio wedi tyfu a newidiadau mewn arferion amaethyddol, mae'r ymgeisydd yn awr yn wyna mewn siedau mwy ymaith o'r safle. Ni wneir fawr o ddefnydd o'r adeilad ar hyn o bryd a chaiff ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer offer a bwyd anifeiliaid.
- Y bwriad tu ôl i'r cynnig yw addasu'r adeilad na wneir fawr o ddefnydd ohono ar hyn o bryd i greu ffrwd incwm arallgyfeiro ychwanegol ar gyfer y fferm. Mae ffermydd yn gorfod arallgyfeirio er mwyn ysgogi refeniw ychwanegol.
- Er y bydd y busnes ffermio yn parhau i fod y busnes creiddiol, bydd darparu incwm safle gwyliau o'r adeilad hwn yn rhoi sefydlogrwydd o ran llif arian ar gyfer y busnes mewn cyfnod economaidd cythryblus.

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

- Gofynnodd asiant yr ymgeisydd i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y swyddog.

Ar ôl ystyried adroddiad y cais a'r sylwadau a gafwyd, trafodwyd y cais yn faith a chodwyd nifer o faterion yn ymwneud â dyluniad y cynnig a mynediad i'r safle.

Yn dilyn y drafodaeth, cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir P. Murphy ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir R. Harris ein bod yn gohirio ystyried cais DM/2020/00875 i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol i alluogi swyddogion i ymchwilio newidiadau i'r dyluniad gydag asiant yr ymgeisydd i alluogi'r adeilad i gael mwy o gymeriad, i egluro os y gellir defnyddio'r fynedfa arall i'r dwyrain yn lle'r fynedfa a gynigiwyd; gofyn am gynllun gosodiad y safle yn dangos darpariaeth parcio; ymchwilio ardal storfa sbwriel a dull o locio.

Pan roddwyd y cynnig i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

O blaid gohirio	-	11
Yn erbyn gohirio	-	2
Ymatal	-	0

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd gohirio ystyried cais rhif DM/2020/00875 i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio yn y dyfodol i alluogi swyddogion i ymchwilio newidiadau dylunio gydag asiant yr ymgeisydd i alluogi'r adeilad i gael mwy o gymeriad, i egluro p'un ai y gellir defnyddio'r fynedfa arall i'r dwyrain yn lle'r fynedfa a gynigiwyd, gofyn am gynllun gosodiad safle yn dangos darpariaeth parcio, ymchwilio ardal storfa sbwriel a dull o locio.

5. Cais DM/2020/01036 – Ad-leoli mynediad a chlwyd, phlannu newydd a chadw trac mynediad.Bluebell Farm, Heol Blackbird Farm, Earlswood.

Fe wnaethom ystyried adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd ar gyfer ei gymeradwyo gyda'r ddwy amod a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Roedd y Cynghorydd I. Martin, yn cynrychioli Cyngor Cymuned Drenewydd Gellifarch, wedi cyflwyno datganiad ysgrifenedig yn amlinellu gwrthwynebiad y cyngor sir i'r cais, a ddarllenwyd i'r Pwyllgor Cynllunio gan y Pennaeth Cynllunio, sef:

'Mae Cyngor Cymuned Drenewydd Gellifarch yn gwrthwynebu'r cais hwn.

Efallai nad yw'r Pwyllgor Cynllunio yn gwybod am gais DC/2017/00607 oedd yn bron yn union yr un geiriad l'r cais hwn, ac am benderfyniad Cyngor Sir Fynwy i'w wrthod ar sail:

1 Oherwydd ei leoliad amlwg, byddai'r fynedfa a'r ffordd a gynigir yn nodweddion anghydnaws a fyddai'n niweidiol i gymeriad yr ardal. Byddai gan y datblygiad effaith niweidiol sylweddol ar gymeriad ac ymddangosiad y tirlun gwledig yn groes i bolisiau DES1 (c), (e) a (h), LC1 a LC5 y Cynllun Datblygu Lleol.

2 Mae'r fynedfa newydd a gynigir yn ymlediad gwneuthuredig diangen ar draws ardal agored amlwg na fyddai'n rhoi mynediad rhwydd a diogel ac a fedrai o bosibl niweidio

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

iechyd a chyfleuster defnyddwyr ffordd eraill yn groes i Bolisi MV1 a meini prawf (a) ac (e) Polisi DES1 Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy.

Nid ydym yn ymwybodol fod y polisïau cynllunio hynny wedi newid ers y gwrthodiad hwnnw.

Ystyriwn fod yr adroddiad gan Lime Transport yn anghywir oherwydd:

1. Mae ganddo bennawd Mynedfa Amaethyddol a Gynigir ac mae'n cyfeirio at amaethyddiaeth. Preswylfa breifat ac nid fferm yw hyn. Nid oes cyfiawnhad dros roi ffordd breifat ar draws dau gae. Mae'r fynedfa ar gyfer symud ceffylau y preswylwyr eu hunain, ac nid yw cadw'r ceffylau hynny yn weithgaredd amaethyddol..

2. Ym mharagraff 1.1.3 mae'n dweud nad oes unrhyw newid defnydd ar y fferm ac y bydd nifer a math o symudiadau cerbyd a achosir gan y safle yn parhau heb newid. Felly, nid oes unrhyw effaith ar y rhwydwaith ffyrdd ehangach yn gysylltiedig gyda'r fynedfa ychwanegol hon..

Yn flaenorol, roedd mynediad drwy Lôn Blackbird Farm ac nid Old Road. Mae Old Road yn gul iawn gyda gall cyfyngedig i weld a gwrychoedd uchel, heb unrhyw leoedd pasio yn ôl i'r briffordd (gweler para 2.14 – mae: lled lon cerbyd cyfyngedig wrth groesffordd Old Road/Bluebell Road). Mae eisoes yn beryglus ar gyfer modurwyr a cherddwyr fel ei gilydd.

Rydym yn siomedig nad yw Priffyrdd wedi cefnogi gwrthodiad Cyngor Sir Fynwy yn 2017 na fyddai'n rhoi mynediad rhwydd a diogel a gallai o bosibl niweidio ar ddiogelwch a chyfleuster defnyddwyr ffordd.

Ymhellach rydym yn anghytuno gyda'r Papur Gwerthuso Tirlun a Gweledol sy'n dweud na fedrid gwahaniaethu rhwng y trac arfaethedig ag ymddangosiad y cae. Nid yn unig y gellir gweld y trac fel y'i gosodwyd ar hyn o bryd ar unwaith oherwydd natur agored y tirlun ond hefyd bydd defnyddio blychau ceffyl dros y trac yn y gaeaf yn achosi olion sylweddol gan fod angen sylfaen mwy cadarn i'r ffordd yn nes ymlaen. Er gwaethaf y penderfyniad cynharach i wrthod, cafodd y ffordd yn awr ei gosod. Ystyriwn fod rhoi ffyrdd preifat ar draws caeau yn arfer ffermio gwael ac yn graith ddiangen ar y tirlun.

Dengys ein harolwg diweddar o breswylwyr eu bod eisïau cadw nodweddion ein hardal sydd yn bennaf yn dirlun amaethyddol a gwledig. Dylai'r ardal gael ei dynodi eto fel un o ddiddordeb arbennig ac ystyriwn ei bod yn bwysig cadw'r nodweddion hynny er mwyn denu twristiaid a hefyd er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Roedd Mr S. Courtney, asiant yr ymgeisydd, wedi cyflwyno datganiad ysgrifenedig i gefnogi'r cais a gafodd ei ddarllen i'r Pwyllgor Cynllunio gan y Pennaeth Cynllunio fel sy'n dilyn:

'Rwy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd, Mr James Howells, yng nghyswllt y cais hwn ar gyfer newid safle mynedfa a chlwyd, newid safle gwrych ynghyd â phlannu newydd a

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

chadw trac mynediad yn arwain at ei ysgubor/stablau. Mae'r cais hwn yn dilyn gwrthodiad blaenorol yn 2017 i gadw mynedfa a thrac diwygiedig.

Dylai Aelodau wybod fod angen y cais er mwyn goresgyn problem sylweddol gyda diogelwch priffordd gan alluogi'r ymgeisydd i gael mynediad diogel i'w ysgubor/stablau drwy fynedfa a thrac wedi eu haddasu, gan osgoi problemau diogelwch a gwrthdaro gydag eiddo cyfagos. Mae'r ymgeisydd yn cadw ceffylau ac weithiau angen eu cludo yn defnyddio ei flwch ceffylau. Mae'r llwybr gwreiddiol i'r de, drwy Blackbird Farm Road, yn lon un trac a gaiff ei rhannu gydag eiddo cyfagos ac mae blwch ceffyl yr ymgeisydd yn rhy fawr i ddefnyddio'r llwybr hwn yn ddiogel; mae hyn yn flaenorol wedi arwain at wrthdaro gyda chymdogion yr ymgeisydd. Mae natur rhan ôl-weithredol y cais hwn oherwydd y cynghorwyd yr ymgeisydd yn wreiddiol nad oedd y gwaith, yn cynnwys yr addasiad i'r fynedfa bresennol i'r maes, angen caniatâd.

Hoffwn sicrhau Aelodau a rhai â diddordeb y cafodd y pryderon a godwyd gan y Cyngor Cymuned ac yn wir yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn flaenorol eu hystyried yn drwyadl o fewn y cynllun diwygiedig. Yng ngoleuni hyn ac yn dilyn proses o ymgynghoriad cyn gwneud cais gyda swyddogion, cafodd y cynigion eu diwygio a'u hategu fel sy'n dilyn:

- Cynigir mynedfa lai yn awr yn cynnwys clwyd fferm dur wedi galfanu gyda phostyn pren a ffens rheilen, ynghyd â phlannu gwrych, a ystyrir yn fwy addas ar gyfer y lleoliad gwledig.
- Caiff y fynedfa ei chilannu i'r parcel o'r cae er mwyn rhoi digon o le i'r blwch ceffylau fynd i mewn ac allan o'r eiddo heb flocio'r lôn. Mae'r gilan yn rhoi budd diogelwch ychwanegol drwy ddarparu bae pasio ychwanegol ar gyfer traffig sy'n mynd heibio.
- Cynigir plannu coed a gwrychoedd ychwanegol i liniaru ymhellach effaith weledol y cynnig ac i roi budd bioamrywiaeth net cyffredinol.
- Paratowyd Asesiad Tirlun sy'n cadarnhau fod unrhyw effaith gweledol sydd gan y fynedfa newydd yn fach iawn a heb fod yn anghydnaws gyda'r lleoliad gwledig ac felly caiff y cynnig ei ystyried yn dderbyniol mewn termau tirlun a gweledol.
- Mae Nodyn Technegol yn cyd-fynd gyda'r cais sy'n cadarnhau fod y fynedfa newydd yn cydymffurfio gyda'r safonau dylunio perthnasol ac yn rhoi mynediad mwy addas i gerbydau amaethyddol (yn cynnwys blwch ceffylau mawr) ac y bydd yn welliant o ran diogelwch priffordd.

I gau, hoffwn sicrhau Aelodau a'r Cyngor Cymuned y cafodd y cais hwn ei ystyried yn gywir a'i fod yn ddilynol wedi derbyn cefnogaeth eich Swyddogion, yn dilyn proses o ymgynghori, gan roi ystyriaeth i nifer o awgrymiadau a wnaed yn ystod y broses. Ni chafodd unrhyw wrthwynebiad eu gwneud gan unrhyw un o'r ymgynghoreion arbenigol, yn cynnwys y Swyddog Priffyrdd a Thirlun.

Yng ngoleuni'r uchod, byddwn yn gofyn yn barchus fod Aelodau yn cefnogi argymhelliad eich Swyddog ar gyfer cymeradwyaeth yn unol â chanllawiau cenedlaethol ynghyd â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol.'

Amlinellodd yr Aelod lleol dros Drenewydd Gellifarch, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, y pwyntiau dilynol:

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

- Cafodd y cais cyntaf ei wrthod gan y Pwyllgor Cynllunio Lleol yn 2017 ar sail pryderon tirlun gydag effaith niweidiol ar y tirlun gwledig a phryderon priffyrdd y gallai niweidio diogelwch a chyfleuster defnyddwyr ffordd.
- Roedd y cais gwreiddiol yn rhoi clwyd breswyl arddull drefol gyda thramwyfa gro, tywod a chlai 420 metr o hyd ar draws dau gae. Cafodd ei ddiwygio yn y cais hwn i glwyd amaethyddol safonol, ond mae'r dramwyfa gro, tywod a chlai yn parhau.
- Gwrthodwyd y cais wreiddiol ar sail tirlun a phriffordd. Mae'r asesiad tirlun a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd ar gyfer y cais hwn yn dweud fod hyn yn nodwedd amaethyddol mewn tirlun amaethyddol ac y caiff ei ystyried yn dderbyniol mewn termau tirlun a gweledol. Fodd bynnag, mae hyn yn dramwyfa at breswylfa breifat. Mae'n bwysig cadw mewn cof fod adroddiad tirlun yr ymgeisydd hefyd yn dweud fod y safle yn uchel ac yn rhagorol ar ochr tirlun hanesyddol o ran ystyriaethau tirlun.
- Mae adroddiad y swyddog gwreiddiol am yr un dramwyfa gro, tywod a chlai ar gyfer y cais ôl-weithredol yn dweud fod yr Awdurdod Priffyrdd yn ystyried fod y fynedfa a gynigir yn ddiangen ac y bydd yn creu pwynt gwrthdaro diangen ar y briffordd gyhoeddus. Caiff safle'r cais eisoes ei wasanaethu gan fynedfa a thramwyfa addas. Mae'r fynedfa newydd a'r dramwyfa gro, tywod a chlai enfawr yn ddiangen gan fod eisoes fynedfa bresennol fyrrach a gaiff ei rhannu ar Bluebell Farm Lane yn creu mynediad heb fod yn amaethyddol i breswylfa breifat newydd ar draws dau gae mewn cefn gwlad agored yn Old Road, sydd yn gul iawn.
- Ar bedair metr, mae'r dramwyfa gro, tywod a chlai yng nghanol dau gae ar gefn gwlad agored yn lletach na'r llwybr un trac ar gyfer y fynedfa newydd o Old Road.
- Dywedodd adroddiad y swyddog gwreiddiol, yng nghyswllt y dramwyfa gro, tywod a chlai, nad yw'r datblygiad arfaethedig wedi ei gymhathu'n foddhaol yn y tirlun oherwydd y pellter ar draws sefyllfa tir gwledig agored a'r deunydd a ddefnyddiwyd.
- Nid yw'r trac yn parchu cymeriad yr ardal o amgylch ac mae ganddo effaith niweidiol annerbyniol ar y tirlun drwy osod mynedfa domestig ar draws cae. Nid oes ei angen ychwaith oherwydd fod y fynedfa bresennol ar gael i'w defnyddio.
- Mae'n bwysig ar gyfer pobl leol fod cysondeb mewn gwneud polisi.
- Gofynnodd yr Aelod Lleol i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried gwrthod y cais ar y seiliau y gwrthodwyd y cais gwreiddiol.

Ar ôl ystyried adroddiad y cais a'r farn a fynegwyd, nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Ystyriwyd fod Paragraff 6.1 yr adroddiad yn dod i'r casgliad fod yr holl ddatblygiad angen caniatâd. Fodd bynnag, mynegwyd peth pryder am sut y daethpwyd i'r casgliad hwnnw. Mae Paragraff 6.1 yn gwneud ei bwynt ar faterion amherthnasol, yn rhoi pwysau iddynt ac yn awgrymu na fyddai egwyddor y trac wedi bod yn ystyriaeth sylweddol pe byddai'r broses gymeradwyo flaenorol wedi ei dilyn. Dywedodd Rheolwr Tîm Ardal Rheoli Datblygu y byddai paragraff 6.1 yn cael ei adolygu a dywedodd y dylai'r Pwyllgor Cynllunio ystyried y cais fel y saif ar hyn o bryd.

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

Rhoddodd yr Aelod Lleol grynodedb fel sy'n dilyn:

- Mae'r tirlun yn fater neilltuol oherwydd y dramwyfa wneuthuredig.
- Dyfynnodd yr Aelod Lleol o asesiad tirlun yr ymgeisydd.
- Mae un o'r caeau a ystyriwyd yn y cais cynharach tua 30 metr. Mae'r cais hwn yn cyfeirio at drac 420 metr sydd tua pedair metr o led, sy'n lletach na'r ffyrdd sydd o amgylch. Mae hyn wedi'i leoli mewn ardal gyda thirluniau eithriadol.

Dywedodd Rheolwr Tîm Ardal Rheoli Datblygu y cafodd y cais ei ystyried gan Swyddog Tirlun yr Awdurdod ac na wnaed unrhyw wrthwynebiad yng nghyswllt y trac na'r effaith ar y tirlun. Argymhelliad y swyddog tirlun yw nad yw'r trac arfaethedig yn ddigon niweidiol i fod yn haeddu gwrthod y cais a bod y fynedfa fel y'i cynlluniwyd yn awr ac y cafodd ei newid hefyd yn welliant. Lliniarwyd yn erbyn y pryderon tirlun a godwyd yng nghyswllt y cais blaenorol.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir A. Webb ac eiliodd y Cynghorydd D. Evans fod cais DM/2020/01036 yn cael ei gymeradwyo yn destun i'r ddwy amod a amlinellir yn yr adroddiad.

Pan roddwyd y cynnig i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol

O blaid cymeradwyo	-	10
Yn erbyn cymeradwyo	-	2
Ymatal	-	0

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2020/01036 yn destun i'r ddau amod a amlinellwyd yn yr adroddiad.

6. Cais DM/2018/00757 – Cynnig i newid defnydd hen reilffordd, a gaiff hefyd ei defnyddio ar hyn o bryd fel mynediad fferm, i drac fferm a thrac seiclo/llwybr troed defnydd cymysg. Bydd angen clirio peth tyfiant, deunydd wyneb a gosod wyneb llwybr a chodi ffens mewn rhannau i wahanu traffig fferm o seiclwyr/cerddwyr. Hen linell rheilffordd, Woodside, Brynbuga i dir i'r gorllewin o safle Coleg Gwent, Monkswood.

Ystyriwyd adroddiad y cais a argymhellwyd i'w gymeradwyo yn destun i'r 10 amod a amlinellir yn yr adroddiad.

Mynychodd yr Aelod Lleol dros Lanbadog y cyfarfod ar wahoddiad y Cadeirydd ac amlinellodd y pwntiau dilynol:

- Mae potensial yn y cynnig ond mae rhai problemau.
- Mae rhan o'r llwybr yn mynd ar hyd arglawdd a gallai fod problemau strwythurol yn ymwneud â phont.
- Caiff y fynedfa beryglus ar draws yr A472 ei chydabod a gallai mynd i'r afael â'r mater hwn fod o fudd i breswylwyr Woodside yng nghyswllt cyflymder traffig.
- Mae'r llwybr yn croesi fferm waith gyda gyrr o 200 o wartheg a gaiff eu symud yn rheolaidd ar hyd ac ar draws y llwybr.

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

- Mae angen i wyneb y trac gael ei adeiladu'n dda i sefyll lan i'w defnydd nhw a defnyddwyr eraill.
- Mynegwyd pryder am fater defnyddwyr beiciau a cherddwyr yn dod i gysylltiad gyda gwartheg a pheiriannau fferm ar hyd y llwybr.
- Mae'n llwybr hamdden.
- Mynegwyd pryder am atebolwydd pe byddai aelod o'r cyhoedd yn cael ei anafu ar ôl dod i gysylltiad gyda gwartheg/peiriannau fferm tra'n teithio ar hyd y llwybr.
- Mae rhan olaf y llwybr ar draws caeau agored ger y ganolfan farchogaeth. Bydd ceffylau yn y cae o bryd i'w gilydd a mynegwyd pryder am aelodau o'r cyhoedd yn dod i gysylltiad â nhw. Mae hefyd bryder am y potensial i glwydi gael eu gadael ar agor yn galluogi da byw i adael y cae.
- Byddai angen ystyried ffens ar draws y cae hwn i atal cyswllt rhwng da byw ac aelodau o'r cyhoedd.
- Gallai mynd drwy'r ganolfan farchogaeth fod yn llwybr arall ar gyfer y fynedfa.
- Mynegwyd consyrn y bydd adran o'r llwybr yn rhedeg yn agos at gartrefi lleol ac ystyriwyd bod hynny yn tresmasu ar y preswylwyr hyn. Dylid ystyried llwybr arall ar y sail hwn. Dylai'r budd dynol gael ei gymryd gymaint o ddiffri â'r mater amgylcheddol gan yr effeithir ar amwynder preswyl.
- Mynegwyd consyrn y bydd beicwyr modur yn gwaethygu lefelau sŵn.

Ar ôl ystyried adroddiad y cais a'r farn a fynegwyd, nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Mae ffermwyr lleol wedi mynegi pryder am y cynnig a sut y byddant yn ymdopi pan fydd y llwybr seiclo yn weithredol. Mae angen trafod gyda'r ffermwr tenant.
- Hysbysodd Rheolwr Tîm Ardal Datblygu Rheoli y Pwyllgor fod mater rhwymedigaeth yn disgyn tu allan i'r broses Cynllunio. Byddai angen cyfeirio unrhyw bryderon a godid at y Rheolwr Prosiect ar gyfer y cais. Daw ymgysylltu gyda'r ffermwr a phreswylwyr lleol o fewn amodau a byddai'n briodol cynnal ymgynghoriad am y manau lloches ac archwiliadau diogelwch, yn ogystal â'r cynigion sgrinio ger y ddau gymydog a ddynodwyd. Rhagwelid y gellid sicrhau datrysiad rhesymol drwy amodau.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir G. Howard ac eiliodd y Cynghorydd Sir M. Feakins i gymeradwyo cais DM/2018/00757 gyda'r 10 amod a amlinellir yn yr adroddiad. Byddir yn gofyn i'r Rheolwr Prosiect gydlynu gyda'r ffermwyr tenant ar hyd y llwybr i helpu rhoi manylion y cynllun fel mae'n effeithio ar ddefnydd y fferm.

Pan roddwyd y cynnig i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

O blaid cymeradwyo	-	14
Yn erbyn cymeradwyo	-	0

Cyngor Sir Fynwy
Pwyllgor Cynllunio
Remote Meeting
Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

Ymatal - 0

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2018/00757 yn destun i'r 10 amod a amlinellir yn yr adroddiad. Byddir yn gofyn i'r Rheolwr Prosiect gydlynu gyda ffermwyr tenant sy'n defnyddio'r tir ar hyd y llwybr i helpu rhoi manylion y cynllun fel mae'n effeithio ar ddefnydd fferm.

7. Cais DM/2019/02012 – Cynnig i ddatblygu 24 uned gofal ychwanegol (Defnydd Dosbarth C2), mynediad a maes parcio, tirlunio, trin ffiniau a dull o amgau. Tir i'r De o fwyty Brewers Fayre, Heol Iberis, Llan-ffwyst.

Ystyriwyd ystyriaeth i adroddiad y cais a argymhellwyd i'w gymeradwyo.

Rhodddwyd adroddiad ar y cais i'r Pwyllgor Cynllunio ar 6 Hydref 2020 gydag argymhelliad gan swyddogion i wrthod y datblygiad arfaethedig. Ni wnaeth Aelodau dderbyn yr argymhelliad hwn a gohiriwyd y cais i'w gymeradwyo yn destun i amodau. Cafodd yr amodau islaw eu cytuno yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 3 Tachwedd 2020.

Ers y penderfyniad hwn, gofynnodd yr ymgeisydd am ddiwygio amod rhif 13 i dynnu'r cyfyngiad fod y llety gofal ychwanegol i'w ddefnyddio yn llwyr yn gysylltiedig â chartref gofal stad Foxhunters. Mae hyn oherwydd bod y llety gofal ychwanegol a gynigir o fewn y cais hwn yn fath gwahanol o ddarpariaeth gofal ac yn hollol ar wahân i stadau Foxhunter. Mae'r gofal ychwanegol ar gyfer pobl gydag ystod eang o anghenion gofal ychwanegol o symudedd, llesgedd, anabledd corfforol, nam ar y golwg a'r clyw, MS a phroblemau eraill gyda chyfyngiad oedran o 55 neu drosodd.

O gofio am yr eglurhad hwn gan yr ymgeisydd, argymhellodd swyddogion ddiwygio amod rhif 13 i'r dilynol:

13 i) Bod yr unedau a gymeradwyir dan hyn yn cael eu defnyddio'n llwyr ar gyfer cartrefi gofal ychwanegol fewn Dosbarth D2 Gorchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y'u diwygiwyd).

ii) Caiff y llety gofal ychwanegol a gymeradwyir drwy hyn ei ddefnyddio gan bobl 55 oed neu hŷn, a chaiff ei ddefnyddio'n llwyr ar gyfer llety gofal ychwanegol.

Rheswm: Er mwyn osgoi amheuaeth fel ag i ddefnydd wedi ei awdurdodi o unedau gofal agos.

Ar ôl ystyried adroddiad y cais, cynigiodd y Cynghorydd Sir G. Howard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir P. Clarke i gymeradwyo'r mân newid yng ngeiriad amod rhif 13, sef:

13 i) Caiff yr unedau a gymeradwyir drwy hyn eu defnyddio'n llwyr ar gyfer cartrefi gofal ychwanegol o fewn Dosbarth C2 Gorchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y'i diwygiwyd).

ii) Caiff y llety gofal ychwanegol a gymeradwyir drwy hyn eu defnyddio gan bersonau 55 oed neu hŷn, a chânt eu defnyddio'n llwyr ar gyfer llety gofal ychwanegol.

Pan roddwyd y cynnig i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

O blaid cymeradwyo - 14

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

Yn erbyn cymeradwyo	-	0
Ymatal	-	0

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo'r mân newid i eiriad amod rhif 13, sef:

13 i) Y caiff yr unedau a gymeradwyir drwy hyn eu defnyddio'n llwyr ar gyfer cartrefi gofal ychwanegol o fewn Dosbarth C2 Gorchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y'i diwygiwyd).

ii) Caiff y llety gofal ychwanegol a gymeradwywyd drwy hyn eu defnyddio gan bersonau 55 oed neu hŷn, a chânt eu defnyddio yn llwyr ar gyfer llety gofal ychwanegol.

8. Cais DM/2020/00703 – Adeiladu tŷ tair ystafell wely. Pwllmeyric House, Pwllmeurig, Cas-gwent.

Roedd yr ymgeisydd wedi tynnu'r cais yn ôl cyn dechrau'r cyfarfod.

9. Cais DM/2020/00968 – Codi ysgubor amaethyddol ar gyfer gwair a pheiriannau. Tir yn Llanvihangel Court, Devauden, Cas-gwent.

Ystyriwyd adroddiad y cais a argymhellwyd ar gyfer ei gymeradwyo yn destun i'r pump amod a amlinellir yn yr adroddiad.

Wrth nodi manylion y cais dynodwyd fod y to a gynigir ar hyn o bryd yn llen sment ffibr llwyd. Fodd bynnag, gellid ychwanegu amod am liw'r to.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir A. Webb ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir P. Clarke i gymeradwyo cais DM/2020/00968 yn destun i'r pump amod a amlinellir yn yr adroddiad gydag amod ychwanegol bod lliw'r to yn cael ei gytuno cyn rhoi'r penderfyniad, gyda'r dewis am liw gwyrdd tywyll.

Pan roddwyd y cynnig i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

O blaid cymeradwyo	-	11
Yn erbyn cymeradwyo	-	0
Ymatal	-	0

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2020/00968 yn destun i'r pump amod a amlinellwyd yn yr adroddiad gydag amod ychwanegol y cytunir ar liw'r to cyn cyhoeddi'r penderfyniad, gyda'r dewis am liw gwyrdd tywyll.

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

10. **Cais DM/2020/01328 – Adeiladu 2 dŷ pâr 2 ystafell wely yng ngardd rhif 7 Heol Parc, Cil-y-coed. 73 Heol Parc, Cil-y-coed, NP26 4EL.**

Derbyniwyd adroddiad y cais a gyflwynwyd ar gyfer gwrthodiad am un rheswm a amlinellir yn yr adroddiad.

Amlinellodd Aelod lleol Dewstow, sydd hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, y pwyntiau dilynol:

- Bydd y datblygiad mewnlenwi yn medru defnyddio'r tir yn effeithol a rhoi mynediad rhwydd i amwynderau presennol drwy gerdded, seiclo ac yn y blaen, gan ostwng yr angen i ddefnyddio cerbydau preifat.
- Bydd yr anheddau yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
- Nid yw'r safle yn safle tir cefn.
- Nid oedd yn ymarferol ymestyn y brif annedd i deras oherwydd byddai cael rhyng-gysylltiad ffisegol yn golygu problemau mynediad a chreu ar gyfer yr annedd arfaethedig bresennol drwy ale gyda hawliau cyfreithiol cysylltiedig perchnogaeth o'r gofod. Felly, dymchwel y tŷ allan a'r cynllun i ffurfio llwybr a a gaiff eu rannu ar yr ochr honno.
- Mae'r cynnig yn cydymffurfio gyda'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â datblygiad mewnlenwi graddfa fach gyda llai na 10 annedd fel y'u diffinnir ym mholisiâu H1, H2, H3 y Cynllun Datblygu Lleol.
- Mae'r nodweddion tirlun presennol a golygfeydd ar draws y safle yn cefnogi hyn ac yn gydnaws gyda'r ardal o amgylch.
- Mae'r tir yn ddigon mawr ar gyfer mwy o dai a hefyd gynllunio ar y safle. Bydd y gofod gardd yn debyg i dai presennol yn yr ardal.
- Bydd yr anheddau arfaethedig yn manteisio o ofod gardd preifat ar gyfer defnydd hamdden y preswylwyr.
- Bydd y datblygiad arfaethedig yn gydnaws gyda llinell adeiladu anheddau eraill.
- Bydd y deunyddiau a ddefnyddir yn gydnaws gyda'r anheddau gwreiddiol a chyfagos. Bydd y to yn debyg i doau anheddau presennol ac yn ategu'r golwg stryd.
- Ni fydd safle'r tai newydd yn effeithio ar breifatrwydd cymdogion gan na fydd unrhyw ffenestri ar y naill dalcen na'r llall
- Mae Canllawiau Cynllunio Atodol yn awgrymu ei bod yn ddymunol cael gofod o 50 metr rhwng prif weddau Bydd gofod o 13 metr yn yr achos hwn. Mae ffactor lliniaru ar gyfer y gofod 13 metr gan fod garej fawr ar wahân gerllaw fydd yn cysgodi agweddau a allai ymyrryd.

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

- Mae nifer fawr o enghreifftiau ar draws Cil-y-coed lle cafodd y gofod 50 metr a ddymunir ei lacio, gyda'r pellter yn bum metr mewn rhai amgylchiadau.
- Mae'r cynnig yn ateb holl ofynion y Canllawiau Cynllunio Atodol.
- Mae'r Aelod lleol yn cefnogi cymeradwyo y cais a gofynnodd i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried yr amgylchiadau lliniaru yng nghyswllt y gofod 13 metr ac yn ystyried cymeradwyo'r cais.

Ar ôl ystyried adroddiad y cais a'r farn a fynegwyd, nodwyd y pwyntiau dilynol:

- Hysbysodd Rheolwr Tîm Ardal Rheoli Datblygu y Pwyllgor nad yw'r anheddau arfaethedig yn unedau fforddiadwy. Mae'r anheddau yn unedau marchnad.
- Mae'r anheddau yn anymarferol. Nid oes digon o le y naill ochr na'r llall o bob annedd. Byddai'r safle yn fwy addas i gael dim ond un annedd ar y safle.
- Byddai ceir wedi parcio yn dominyddu blaen y tai.
- Byddai cymeradwyo'r cais yn arwain at orddatblygiad y safle.
- Cytunodd rhai aelodau gyda'r farn a fynegwyd gan yr Aelod lleol gan yr ystyriwyd nad oedd digon o le ar y safle i adeiladu dwy annedd ar wahân. Nid oes unrhyw edrych dros anheddau eraill.

Rhoddodd yr Aelod lleol y crynodeb dilynol:

- Dim ond am y pellter rhwng 1 Elm Road a'r anheddau arfaethedig yr oedd y Swyddog Cynllunio wedi mynegi pryderon. Gofynnodd yr Aelod lleol am yr amgylchiadau lliniaru o ran y pellter rhwng yr annedd ac 1 Elm Road. Mae'r Pwyllgor Cynllunio wedi cymeradwyo dwysedd llawer mwy ar ofodau mwy na'r safle hwn yng Nghil-y-coed. Felly gofynnodd yr Aelod lleol am roi ystyriaeth i amgylchiadau lliniaru 13 metr rhwng yr eiddo ac 1 Elm Road.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir A. Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir G. Howard y dylid gwrthod cais DM/2020/01328 am un rheswm a amlinellir yn yr adroddiad (fel yn argymhelliad y swyddog yn yr adroddiad).

Pan roddwyd y cynnig i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

O blaidd gwrthod	-	10
Yn erbyn gwrthod	-	3
Ymatal	-	1

Cariwyd y cynnig.

Penderfynwyd gwrthod cais DM/2020/01328 am un rheswm a amlinellir yn yr adroddiad (yn unol ag argymhelliad y swyddog yn yr adroddiad).

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

11. Cais DM/2020/01517 – Trosi cyfran ecwiti un o'r unedau fforddiadwy yn gyfraniad ariannol. Swan Meadow, Heol Trefynwy, Y Fenni, NP7 5HF.

Ystyriwyd adroddiad y cais a argymhellwyd i'w gymeradwyo gyda diwygiad i'r Weithred Amrywiad yn y Cytundeb Adran 106 gwreiddiol.

Ym mis Mehefin 2014 cymeradwyodd y Pwyllgor Cynllunio ganiatâd cynllunio DC/2013/00304 ar gyfer adeiladu 38 o fflatiau ymddeol. Roedd cymeradwyaeth yn destun Cytundeb Adran 106 am gyfraniad ariannol i'w gwneud yn ofynnol fod dwy o'r unedau yn fflatiau "cyfran aur" lle gallai'r fflatiau gael eu cynnig naill ai i berson oedrannus neu berson a enwebwyd gan y Cyngor fel bod yn methu diwallu eu hanghenion tai ar y farchnad agored. Diffinnir "person oedrannus" fel rhywun dros 60 a/neu gymar person o'r fath dros 55 oed. Cafodd un o'r unedau eu gwerthu fel hynny gyda'r Cyngor yn awdurdodi'r gwerthiant ar werth y farchnad llai gostyngiad o 30%. Ar ôl cael gostyngiad o 30%, mae angen i'r perchennog gytuno ar gyfamod i gydymffurfio gyda'r drefn ailwerthu. Fodd bynnag, ceisiodd Adran Tai Cyngor Sir Fynwy werthu'r ail eiddo i "Berson Dynodedig" ond bu'n aflwyddiannus. Felly cynigir diwygio Cytundeb Cyfreithiol A106 i roi cyfraniad ariannol i'w werthu ar gyfer darparu tai fforddiadwy mewn man arall yn yr ardal. Mae gwerth presennol y farchnad yn £229,950 gan wneud y cyfranddaliad 30% yn werth £68,985.

Dynodwyd y pwyntiau dilynol wrth nodi manylion y cais:

- Cwestiynwyd gwerth y fflat o £229,950. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Cynllunio fod gwerth yr eiddo yn dod gan ddau asiant lleol. Cafodd yr eiddo ei farchnata fel annedd dwy ystafell wely ar y pris cyfran aur. Aiff y cyfraniad ariannol a geir yn ôl i'r stoc tai fforddiadwy.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir M. Powell ac eiliodd y Cynghorydd Sir P. Clarke i gymeradwyo cais DM/2020/01517 gyda diwygiad i'r Weithreded Amrywiad i'r Cytundeb Adran 106 gwreiddiol.

Pan roddwyd y cynnig i bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau dilynol:

O blaid cymeradwyo	-	11
Yn erbyn cymeradwyo	-	3
Ymatal	-	0

Cariwyd y cynnig

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2020/01517 gyda diwygiad i'r Weithred Amrywiad i'r Cytundeb Adran 106 gwreiddiol.

12. ER GWYBODAETH – Yr Arolygiaeth Cynllunio – Penderfyniadau Apeliadau a dderbyniwyd:

12.1. Pwllmeyric Lodge, Badgers Meadow, Pwllmeurig.

Derbyniwyd adroddiad yr Arolygiaeth Cynllunio sy'n ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn Pwllmeyric Lodge, Badgers Meadow, Pwllmeyric ar 19 Hydref 2020.

Nodwyd y gwrthodwyd yr apêl.

Cyngor Sir Fynwy

Pwyllgor Cynllunio Remote Meeting

Dydd Mawrth, 1af Rhagfyr, 2020, 2.00 pm

12.2. Worthybrook Farm, Wonastow, Trefynwy.

Derbyniwyd adroddiad gan yr Arolygiaeth Cynllunio sy'n ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yn Worthybrook Farm, Wonastow, Trefynwy ar 19 Hydref 2020.

Nodwyd y gwrthodwyd yr apêl.

12.3. Worthybrook Farm, Wonastow, Trefynwy – Penderfyniad ar Gostau.

Derbyniwyd adroddiad yr Arolygiaeth Cynllunio sy'n ymwneud â chais am gostau yng nghyswllt Apêl Cyf.: APP/E6840/A/20/3257266. Cyfeiriad safle: Worthybrook Farm, Wonastow, Trefynwy.

Nodwyd y gwrthodwyd y cais am ddyfarnu costau.